YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 8.] AWST, 1920. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADAIN FFYDD.
YN EISIAU: DEFFROAD CREFYDDOL.
Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.
Y SWN YN Y GWERSYLL.
Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.
CWRDD COFFA.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssúl.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

"THE TRAINING OF MIND AND WILL"

By W. Tudor Jones, M.A., Ph.D.

CONTENTS:

Foreword by Dr. Alex Hill.
Chapter I. Introduction.
II. Need of Ability.
III. Knowing our own Mind.
IV. Observation, Attention, Concentration, Will-power, Memory.
V. The Three Levels of Mind—Perception, Association, and Reflection.
VI. The Four Sides of Life and their Cultivation—(*a*) The Civic Side; (*b*) The Vocational Side; (*c*) The Cultural Side; (*d*) The Religious Side.

Price, 2/6. - - - Postage, 3d.

Obtainable from—

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. AWST, 1920. [CYF. XX. RHIF 8.

AR ADAIN FFYDD.

CRI'R AFRADLON.

O'R dyfnder y llefais hyd atat, fy Nuw ;
O'th flaen yr ymbiliaf, O gâd imi fyw ;
Anfeidrol drysorau dy ras sy'n ddiri—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt ti !

Myfi wyf afradlon, gresynus a thlawd,
I'r nef yn anffyddlon, i'r ddaear yn wawd ;
O maddeu gamweddau pechadur fel fi—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt ti !

Ar hyspell y crwydrais i gyrrau y byd,
Dilynodd hyfrydlais efengyl o hyd ;
Felus ei nodau, mae groesaw i mi—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt ti !

Er tloted, dychwelaf yn ol tua'm gwlad ;
Er gwaned, mi godaf ac âf at fy Nhad ;
O'i fynwes rhed ffrydiau tosturi yn lli—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt ti !

Wrth ddor dy drugaredd, 'rwy'n curo fy Naf,
Gwn heb dy amgeledd mai marw a wnaf ;
Fy nghalon a'th wenau adfywia yn lli—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt ti !

Yr Arglwydd tosturiol a glybu fy llef,
Troes cri'r edifeiriol yn gân yn y nef ;
Cyd-chwery telynau gogoniant mewn bri—
Duw parod i faddeu, Duw'r Cariad wyt ti !

Y PARCH. T. J. PRITCHARD (*Glan Dyfi.*)

YN EISIAU: DEFFROAD CREFYDDOL.

"Deffro, deffro; gwisg dy nerth Sion."—Esaiah 52 : 1.

Y MAE'R Eglwys Gristionogol, ymron ym mhob cangen o honi, yn myned trwy argyfwng pwysig yn y dyddiau hyn. Yr achwyniad cyffredinol yw—y ffynna difaterwch rhyfeddol mewn perthynas i grefydd—fod y bobl yn tueddu i golli eu dyddordeb ynddi, ac yn ei hanwybyddu fwy-fwy. A'r duedd gyffredin yw gosod yr holl fai am hyn ar yr eglwysi. Nid yw cenadwri'r eglwys, bellach, dyna fel yr honnir, yn apelio at ddynion fel yr arferai wneud gynt; nid yw yn genadwri addas i'n hamserau ni.

Y mae'r achwyniad, yn ol pob arwydd, i ryw fesur, yn wir; ac y mae'r rheswm roddir dros fod pethau fel y maent, hefyd, i ryw bellter, yn wir. Nid syndod ydyw, ychwaith, fod yr eglwysi, yn yr amgylchiadau newydd hyn, yn methu dod i fyny a disgwyliadau dynion. Dyweder a fynner, sefydliadau dynol yw eglwysi: dynion sydd yn eu gwneud i fyny—dynion gwan ac amherffaith ar y goreu. A thuedd pob math ar sefydliadau dynol yw glynu yn gyndyn wrth y llwybr y maent wedi arfer rhodio hyd-ddo yn ddi-derfyn; hyd, fodd bynnag, y gorfodir hwynt gan ddylanwadau na allant eu gwrthwynebu, a dylanwadau a darddant yn fynych o ffynhonellau y tu allan iddynt eu hunain, i symud i lwybr newydd. Nid yw sefydliadau crefyddol—eglwysi—yn eithriad: cyndyn iawn ydynt i adael yr hen lwybrau am lwybrau newydd, gwell; yr hen addysg, am addysg amgenach; y genadwri fu'n boblogaidd unwaith, ond nad yw felly mwyach, am genadwri mwy addas i foddloni anghenion amserau newydd. Gair anffodus iawn yw'r gair iawnffyddiaeth; gresyn ei fod erioed wedi ei fathu; oblegid craig rhwystr ydyw ar ffordd pob cynnydd. Fe ddylai sefydliadau crefyddol—eglwysi, yn anad un math ar sefydliadau, fod ar wyliadwriaeth am bob goleuni newydd, dylent ei ddilyn pan y gwelant ef; dylent fod yn effro i chwilio am anghenion newydd, ac ymdrechu (hyd y gallant) eu diwallu ar ol y gwelant hwynt. Pan yr esgeulusant wneud hyn fe syrthiant i gysgadrwydd a difaterwch. Dyna sydd yn cyfrif, mi gredaf, i raddau helaeth, fodd bynnag, am y difaterwch a nodwedda'r byd dynol heddyw mewn perthynas i grefydd a'i sefydliadau.

Wrth sylwi o honynt ar y cyflwr hwn meddiennir llawer o ddynion gan orfoledd. Ac achos y gorfoledd yw, fod crefydd, fel y barnant hwy, o'r diwedd, ar golli ei gafael am byth ar y meddwl dynol. Nid yw crefydd, ymhob ffurf o honi, fel y barnant hwy, amgen nag ofergoeledd; a thynged haeddiannol pob ofergoeledd yw diflannu o flaen pob goleuni a gwybodaeth well.

Y mae y rhai a orfoleddant oblegid hyn fodd bynnag yn amlygu anwybodaeth dygn o hanes crefydd, ynghyd ag anwybodaeth o natur dyn. Beth amlygir inni gan hanes crefydd? Dim llai na hyn—fod

cyfnodau o ddifaterwch a chyfnodau o fywyd wedi bod yn dilyn eu gilydd yn ddidor o'r dechreu. Fe ddaw hyn i'r golwg yn amlwg iawn er engraifft yn hanes cenedl Israel. Beth oedd cyflwr y genedl ymhob un o'r cyfiyrau hyn? Ymhob adeg o ddifaterwch fe syrthient i bob math ar anffawd a thrychineb. Yn yr adegau o fywyd a ffyddlondeb i alwadau eu crefydd y gwenai llwyddiant arnynt, y mwynhaent eu gwynfyd. Gŵyr y sawl ydynt gyfarwydd ag ysgrifeniadau'r proffwydi y fath bwyslais osodir ganddynt ar y ddwy ffaith hyn.

Daw'r un peth i'r amlwg yn hanes yr Eglwys Gristionogol. Nid oes son am gynnydd yn adegau ei difaterwch; yn yr adegau o fywyd yn hytrach y ceir cynnydd. Daw'r un ffaith i'r amlwg yn hanes Cymru. Ei chrefydd sydd wedi codi Cymru i'r safle y mae ynddo heddyw. Ond yn hanes crefydd yng Nghymru, y mae adegau o ddifaterwch, ac adegau o adfywiad, a'r adegau o adfywiad sydd wedi gadael eu hol ar fywyd Cymru. A dylem ddiolch a gorfoleddu yn galonnog oblegid hyn.

Y casgliad oddiwrth hyn ydyw, os yw crefydd a sefydliadau crefyddol ar hyn o bryd, ynghanol adeg o ddifaterwch, fe ddaw adeg o adfywiad eto. Ac nid sicr ydwyf na welir arwyddion, gwan efallai, fod yr adfywiad yn agoshau. Gan nad beth am hyn, llwyr argyhoeddedig ydwyf y daw. A phau y daw fe siglir aml i hen sefydliad; efallai yr ysgubir llawer o honynt oddiar y ffordd, fel y teilyngant. Fe droir ar y neilltu, fel ysgerbydau meirw, lawer o syniadau a dybid unwaith yn wirioneddau diamheuol, ac fe drawsffurfir amcan crefydd yn llwyr, fe'i trawsffurfir, nid yn gymaint i ffurf wahanol i'r hyn ydyw yn awr ag i ffurf uwch, odidocach. A gweddi calon pob gwir garwr o'r ddynoliaeth ydyw, neu ddylai fod, ar i'r adfywiad hwn gael ei brysuro.

Dywedaf eto, mai dyna ydyw, neu ddylai fod, gweddi calon pob gwir garwr o'r ddynoliaeth. A dywedaf hyn oblegid y credaf mai crefydd fyw yw'r unig allu gwir effeithiol i godi dyn, ac mai trwy gyfrwng sefydliadau crefyddol, megis eglwysi, y cyrhaeddir yr amcan hwn yn oreu. Eithr cyn y gall eglwysi wneud hyn rhaid iddynt fod yn eglwysi byw, effro; rhaid iddynt, yng ngeiriau Esaiah, ddeffroi a gwisgo eu nerth.

Beth fydd ffurfiau allanol yr eglwys adfywiedig? Wn i ddim. Nid yw hyn o bwys. Gall y ffurfiau allanol amrywio yn fawr. Beth, ynte, fydd ei nodweddau amlycaf? Beth raid iddi fod cyn y gall adennill y safle y mae wedi golli? Rhaid iddi fod yn eglwys fydd yn dyst parhaus yn erbyn pob anghyfiawnder, ac yn amddiffynydd i bob cyfiawnder; rhaid iddi fod yn eglwys a weithia yn erbyn pob casineb a malais, a llid a digofaint, a thros gariad a brawdgarwch; rhaid iddi fod yn eglwys a'r ysbryd cenhadol wedi ei llwyr feddiannu; rhaid iddi ofalu fod y plentyn yn cael ei osod ar y ffordd iawn ar ddechreu ei yrfa. Nid pell o le fyddwn pe dywedwn fod yr olaf y pwysicaf o bob rhan o waith eglwys—rhoi y plentyn ar y llwybr iawn ar ddechreu ei yrfa. Trwyther pob plentyn yn drwyadl a'r ysbryd

Cristionogol âg amcanion Cristionogol, fe fydd y genhedlaeth nesaf wedi symud ymhell yng nghyfeiriad teyrnas nefoedd ar y ddaear.

O ba le—o ba ffynhonnell—y tardd yr adfywiad? Pwy fedr ateb gofyniad o'r fath hyn? "Y mae y gwynt yn chwythu lle y mynno; a thi a glywi ei swn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned: felly y mae pob un a aned o'r Ysbryd." Ond gan nad o ba ffynhonnell y tardd, sicr ydyw nad o eglwys ddifater y tardd. Nid oes dyfodol i un eglwys ddifater. Beth yw'r diffyg? Y mae'r hyn a eilw'r Sais yn *driving power* yn eisiau. Beth yw'r *driving power* hwn? Y ffydd a rydd fodolaeth i'r ysbryd cenhadol.

Wn i ddim am un desgrifiad mwy cywir o eglwys ddifater, nac ychwaith am un condemniad cryfach o honi, na'r hyn ddywedir am eglwys neilltuol yn y Datguddiad. "Mi a adwaen dy weithredoedd di," medd y gennad wrthi, "nac ydwyt nac oer na brwd; mi a fynnwn pe baet oer neu frwd." Ie, oer neu frwd. Nid oes perygl o wrthwynebwr agored; ond o ddyn difater ni ellir gwneud dim. Y mae'r un peth yn wir am eglwys. A dyma'r ddedfryd uwchben eglwys Laodicea: "felly, am dy fod yn glaiar . . . mi a'th chwydaf di allan o'm genau"—dedfryd addas uwchben pob eglwys ddifater. Ac ystyr y ddedfryd yw—yr amddifadir pob eglwys glaiar, ddifater, o'r fraint o fod a rhan yn y gwaith o ddwyn teyrnas nefoedd yn nes.

Y mae trai a llanw ym mywyd goreu pob dyn. Y mae trai a llanw hefyd ym mywyd eglwysi. Os adeg trai ydyw hi yn awr, fe ddaw adeg llanw yn y man. Pa bryd, ym mha fodd, trwy ba gyfrwng y daw, ni ellir dweyd. Ond fe allwn ni wneud ychydig i'w brysuro. Y cwestiwn pwysig ydyw—ydym ni yn ddigonol i'r ymdrech? yn ddigon effro i gymeryd gafael ar y cyfleustra?

ADLAIS O'R PWLPUD.

CAS BETHAU GWYR RHUFAIN.

Brenin heb ddoethineb.
Marchog heb brofedigaeth.
Arglwydd heb gynghor.
Gwraig heb feistroliaethwr.
Cyffredin heb gyfraith.
Gwasanaethwr heb ofn.
Tlawd balch.
Cyfoethog di-elusen.
Ustus heb gyfiawnder.
Esgob heb ddysg.
Henddyn heb ddwyfoldeb.
Ieuanc heb ostyngeiddrwydd.
Doeth heb weithredoedd da.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cynhaliwyd Cyrddau Blynyddol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn Mwlchyfadfa, dyddiau Mawrth a Mercher, Mehefin 29 a 30. Cafwyd hin lled ffafriol tra parhaodd y cyfarfodydd, ond trodd allan yn dra cawodog pan oedd y bobl ar eu ffordd adref nos Fercher.

Gellir dweyd eu bod yn gyrddau llwyddianus iawn—llwyddianus yn mhob ystyr. Cafwyd cynulliadau da, yn enwedig dydd Mercher, pryd yr oedd cynrychiolwyr yn bresenol bron o'r oll o'n heglwysi yn y Sir, ac ychydig o eglwysi Morganwg. Mae'n achos llawenydd i feddwl fod ein huchel-wyliau—y Gymanfa Ganu, y Gymanfa Ysgolion a'r Gymanfa Bregethu—yn cadw yn eu blas o hyd, ac fod cymaint o ffyddlondeb yn cael ei ddangos ynglyn a hwynt. Dannodir diofalwch ac anffyddlondeb yr anffyddloniaid yn fynych, ac yn mhob eglwys mae nifer luosog o'r rhai hyn, ond mae'n werth i ni ar ambell i adeg, yn wir, mae'n ddyledswydd arnom, i gofio a chydnabod ffyddlondeb y ffyddloniaid. Mae genym fel eglwysi yn Ngheredigion nifer dda o ffyddloniaid, a diolch am danynt. Buasai'r eglwysi a'r ysgolion sul wedi darfod am danynt er's tro maith onibae am danynt hwy. Diolch am ffyddloniaid y gymanfa a'r cyrddau, ond mwy o ddiolch am y ffyddloniaid o Sul i Sul.

Credwn fod pawb wedi mwynhau y cyrddau. Fel yr ydym wedi crybwyll eisoes yr oeddynt yn gyrddau ardderchog iawn, cyrddau a'u llond o yspryd defosiwn ac addoliad. Cafwyd pregethau ymarferol, amserol a grymus, a gwrandawiad astud, aiddgar. Hyderwn yn fawr iawn eu bod wedi profi ac i brofi eu hunain yn fendith i lawer oedd yno.

Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fawrth gan y Parch. T. Eric Davies, Cefncoed, a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, a T. O. Williams, B.A.

Bore Mercher, am 10.30, aed drwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth gan y Parch. T. O. Williams, yna darllenodd y Parch. D. Evans, Cribyn bapur ar "Cydweithrediad." Ymdriniodd a materion ddylasent gael sylw pob gweinidog ac eglwys. Trueni mawr na fuasai amser yn caniatau i lawer ereill draethu eu barn ar y pwyntiau awgrymwyd ganddo. Yn y gwasanaeth hwn cafwyd anerchiad cynhes iawn gan y Parch. W. J. Phillips, Nottage, ac araeth ddiddorol gan y Parch. Charles H. Strong, o New York.

Dechreuwyd gwasanaeth y prynhawn gan yr hen batriarch John Davies, Tancoed, ac efe yn 84 oed. Yna traddododd y llywydd annerchiad byw a chymelliadol ar "Y swn yn y gwersyll." Ar gynygiad y Parch. D. Conwil Evans, Rhydygwin, pasiwyd pleidlais wresog o ddiolchgarwch iddo am ei annerchiad. Dilynwyd hyn a phregeth gan y Parch. E. T. Evans, Aberdar, ac i ddiweddu'r oedfa hon cafwyd annerchiad gan y Parch. James Harwood, o Llundain, yr hwn oedd yn bresenol fel cynrychiolydd y "National Conference." Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. T. A. Thomas, a phregethwyd gan y Parchn. T. Eric Davies a Lewis Williams. Gwnaeth ffyddloniaid Bwlchyfadfa, yn ol eu harfer, bobpeth allesid ei ddisgwyl i groesawu a diwallu'r ymwelwyr. Wele'r cyrddau blynyddol am 1920 yn mhlith y pethau a fu. Hyderwn y gall llawer ddyweyd am danynt: "Mewn anghof ni chant fod."

ADRODDIAD PWYLLGOR BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS.

Cynhaliwyd yr uchod yn Mwlchyfadfa bore Mercher, Mehefin 30, y llywydd, y Parch. E. R. Dennis yn y

gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y pwyllgor blaenorol, a derbyniwyd adroddiad y Trysorydd. Pasiwyd y penderfyniadau canlynol: (1) Gan mai ychydig o waith ddisgyna i ran y Pwyllgor Arianol, ac fod gryn anhawsder i gael yr aelodau at eu gilydd prynhawn cyntaf y cyrddau penderfynwyd ei ddiddymu, ac fod pob mater arianol o hyn allan i'w dwyn gerbron y Pwyllgor Cyffredinol. (2) Danfon diolchgarwch i Bwyllgor Cymanfa Ganu Undodiaid Morganwg, am ei rodd o £5 i Drysorfa y Llyfr Tonau ac Emynau newydd. (3) Ein bod drwy ysgrifenydd Pwyllgor Cymanfa Ganu Ceredigion yn apelio at y pwyllgor hwnw am danysgrifiad tebyg i anfer at yr un Drysorfa. (4) I wneyd y taliadau canlynol—£3 i'r Parch. T. O. Williams, B.A., sef ei dreuliau teithio i gyfarfodydd wythnos y Sulgwyn yn Essex Hall; £5 i Capel-y-Cwm; £5 i Pantteg; £20 i Drysorfa y Llyfr Tonau ac Emynau; £12 i Olygydd YR YMOFYNYDD; (5) Fod y rhai canlynol i fod yn swyddogion am y flwyddyn—Llywydd: Mr. David Hughes, Maesffynonoer; Islywydd: Parch. Simon Jones, B.A., Nottingham; y Trysorydd, Ysgrifenydd ac Archwilwyr fel o'r blaen; (6) Ein bod yn datgan ein diolchgarwch i'r Parch. Louis C. Cornish, a chyfeillion eraill yn America am ymgymeryd a'r gwaith o osod i fyny "faen-coffa" i'r diweddar Barch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago, a'n bod yn awgrymu iddynt ein bod o'r farn mai doethach fuasai ei osod i fyny yn nghapel Pantdefaid nag yn Mlaenrallddu, y tŷ lle'i ganwyd; (7) Ar gynygiad y Parch. T. O. Williams pasiwyd ein bod yn mabwysiadu cynllun newydd o gynnal ein cyfarfodydd chwarterol fel y byddant yn cael eu cynnal o fewn corph un dydd, ac y ceir mwy o gyfle i ymdrin a gwaith yr Ysgol Sul a materion eraill perthynol i lwyddiant ein heglwysi; (8) Ein bod yn derbyn gyda diolchgarwch wahoddiad o Gapel-y-Cwm i gynal cyfarfodydd yr Hydref yno; (9) Datganwyd diolchgarwch cynhes i'r llywydd am ei wasanaeth ynystod tymhor ei swydd: (10) Penderfynwyd ein bod yn ffurfio trysorfa arbenig i gyfarfod rhan o'r draul o gyhoeddi YR YMOFYNYDD, a phenodwyd y rhai canlynol yn Bwyllgor i ddwyn y Drysorfa i fodolaeth—y Parchn. D. Evans, T. A. Thomas, Lewis Williams a E. O. Jenkins.

Y SWN YN Y GWERSYLL.

[Darllenwyd y Papyr hwn yn Nghyfarfod Chwarterol Cymdeithas Undodaidd Deheuoarth Cymru, yn Mwlch y Fadfa, gan y Parch. Evan Rhys Dennis, Mehefin 30, 1920.]

Fe geir hanes yn y Beibl am Moses yn dyfod i waered o'r mynydd a'r llechau ganddo, a Josua yn dywedyd wrtho, "Mae swn rhyfel yn y gwersyll." Yr wyf am ddefnyddio'r frawddeg hon, ond yr wyf am newid y gair "rhyfel" i ateb swn rhai pethau a glywir mewn bywyd heddyw.

Mae y gair gwersyll yn awgrymu tyrfa o bobl ac amcan neillduol ganddynt, a cheir yn y gair swn proffwydoliaeth o'r hyn sydd yn bod neu

ar ddyfod.

Ac yn gyntaf, hawdd clywed heddyw swn beio yn y gwersyll. Cyfyd y beio i raddau helaeth oherwydd difaterwch ac oerfelgarwch aelodau crefyddol. Sicr yw fod angen neillduol heddyw ar i ni fel aelodau godi i fynu a gwneud ein rhan. Pan ddarllenir y gwahanol anerchiadau (rhai o honynt gan brif feddylwyr ein gwlad) clywir yn eglur y beio a'r condemnio sydd ar grefyddwyr. Nid ydym, meddir, yn byw i fynu a'r hyn ddylasem. Gyfeillion, cofier, ni ellir diystyru'r bygythion a'r cynghorion hyn. Hawdd yw gwawdio'r meddylwyr hyn, trwy eu galw yn hen ffasiwn, ac heb fod yn *up-to-date*, ond cofier, ni fydd hyn oll yn symud y canlyniadau. Ni all y ffaith ein bod yn byw yn yr ugeinfed ganrif; fod ein gwybodaeth yn eangach ac yn sicrach nag erioed; fod genym fyddin a llynges sydd wedi enill y fuddugoliaeth fwyaf yn hanes y byd; nad yw yr haul yn machlud ar ein hymerodraeth; ni all y pethau hyn atal canlyniadau ein bywyd rhag dyfod arnom. Cawn ein hunain yn byw mewn byd a lywodraethir gan ddeddfau moesol didroi yn ol, ac ni all ein balchder a'n gallu rwystro y rhai hyn yn eu gweithrediad. Gwir fod yna gyfnewidiadau, llawer hen ddefod a syniad wedi eu symud; ond erys y pethau tragywyddol yr un. Mae yr hyn a welir dros amser, ond yr hyn ni welir yn dragywyddol. Bendith gyfoethog fyddai i ni sylweddoli'r ffaith hon o'r newydd. Credaf mai dyma un o nodweddion y tadau, sef, eu ffydd yn y ffeithiau hyn a'u sicrwydd o honynt. Nid wyf am ddyweyd ein bod yn waeth na'r tadau, ond yn hytrach hyn, nad ydym yn byw i fynu a'r cyfleusterau. Os bu y fath ymdrech yn y gorffenol, y fath waith, y fath aberth ganddynt hwy, pa faint mwy y dylasai hyn fod gyda ni? Credaf fod gormod o duedd ynom i ddiraddio a diystyru ein gwasanaeth crefyddol.

Dywedir nad yw bod yn aelod crefyddol o bwys yn y byd. Hen arferiad yw, a bod y dyn sydd tu allan i'r eglwys lawn cystal dyn a'r aelod crefyddol. Gwyddom fod lliaws o feiau ar yr eglwys a'r aelodau, ond nid trwy gadw draw y gellir gwella pethau. Hawdd yw beio'r eglwys o'r tu allan heb efallai wybod dim am yr anhawsterau o'r tu fewn. Ond wedi gosod y cwbl yn erbyn yr hen sefydliad gogoneddus hwn, fe erys y ffaith wedi'r cyfan, dyma un o'r pethau goreu sydd yn ein gwlad. Gallwn fod yn sicr o un peth, na thyfwn ni byth tuhwnt i ddeddfau moesol ein Duw. Os ceisir symud yr eglwys allan o'n gwlad peidiwn tybio y gellir gwneud i ffwrdd a'r elfen grefyddol trwy hyny. Fe all y disgyblion dewi, ond yn y fan y llefai y cerrig.

Fe geir llawer awgrym yn y dyddiau presenol sut i lanw'r eglwysi. Dywedir wrthym pe byddem ddim ond yn mabwysiadu'r cynllun hwn neu'r cynllun arall y byddai'r capeli'n llawn. Dywedir fod yr hen bethau allan o'r cwestiwn, fod yr oes yn newid, a'r rhyfel wedi newid y cyfan. Beth bynnag a ddywedir am y cynlluniau a gynygir i'n sylw, rhaid wrth rhywbeth mwy na dyfais dyn er achub byd. Rhaid yw dod i gysylltiad a Duw, a rhaid i'r aelod deimlo ei fod mewn cymundeb ag Ef.

Meddylier am funud beth yw ein syniad am aelodaeth eglwysig. Beth yw ei werth yn ein golwg? Beth a olygir gennym wrtho? Yr ydym wedi symud yr hen syniad o dân uffern, ond a oes rhywbeth genym i lanw ei le? Mae y syniad am Dduw digllawn a chreulon wedi mynd, ond a ydyw Cariad Duw yn cynhesu'n calonnau fel yr oedd y syniad am uffern yn creu braw ynddynt? Mae yna berygl i'r materol gael gormod o afael ynom. Gwir nid diystyru'r byd a'i bethau sydd eisieu, nid ffoi o gymdeithas. Gwaith a dyledswydd yw nod ein bywyd; ond cofier hefyd nid byw i'r ochr arall yw'r unig nod chwaith. Y cam cyntaf sydd eisieu arnom gymeryd, mi gredaf, ydyw ceisio sylweddoli ein dyledswydd fel aelodau, a chofio fod rhan genym ninnau yn y gwaith. Fe ofynir yn

aml, Beth yw achos y methiant presenol? Ceisir gosod y bai ymhob man; ond onid gwell fyddai dod adref i ganfod achos y methiant ynom ni ein hunain? Cymerer unrhyw sefydliad, oni cheir diddordeb yn yr aelodau eu hunain, ni fydd y sefydliad fyw yn hir. Da fyddai i ni fel aelodau crefyddol ddal y frawddeg fach ger ein bron, sef,

"What kind of a Church would our Church be,
If every member were just like me?"

Ond teg yw sylwi hefyd fod neges yr eglwys yn wahanol iawn i unrhyw sefydliad arall. Saif dros yr hyn sydd ysbrydol mewn bywyd. Milwria'i neges yn erbyn tueddiadau iselaf y dyn; condemnia'r yspryd materol a daearol—blys, balchter a nwyd, a cheisia godi ein serchiadau at bethau uwch y byd. Hawdd cael y dyrfa ond disgyn i'w safon, ond anodd yw'r gwaith o'u cymell i adael pleserau'r Aipht, ac i ddringo uchelderau Mynydd Duw. A chymhorth ymhellach fyddai gwybod ychydig o hanes y gorffennol, sef yr hyn mae y tadau wedi wneud, ond nid i orffwys arno, ond yn hytrach iddo fod yn symbyliad i ni. Nid oes diddordeb i fod os nad ydym wedi'n gwreiddio'n y gorffennol. Fe'n ceir fel yr had a hauwyd ar fin y ffordd, y peth lleiaf yn tynnu'n sylw ac yn denu'n bryd. Nid yw ein calon yn gwresogi wrth deimlo ein bod yn perthyn i eglwys Dduw. Hyd y gwasanaeth sydd yn ein blino, ac nid *quality* y gwasanaeth. Mae gwneud gwaith tlawd yn diraddio'r dyn, ac yn naturiol rhed yr un egwyddor i fewn i'n gwasanaeth crefyddol. Hyd yn oed ar y Sabbath mae'r awr yn feichus ac yr ydym am weld y diwedd yn dod. *Hyd* y gwasanaeth sydd yn ein blino ac nid *quality* y gwaith. Nid rhyfedd fod swn beio yn y gwersyll heddyw.

Yn ail, fe glywir swn ymdrech newydd yn y gwersyll heddyw. Swn ymgais Cynghrair y Cenhedloedd ydyw hwn. Dyma fantais ardderchog i aelodau crefyddol! Ymgais tuag at heddwch parhaol. Gwyddom y ceir lliaws o anhawsterau mewn perthynas i'r mudiad hwn; gwyddom fod ymdrechion cyffelyb wedi bod yn y gorffennol, ac iddynt fethu, ond goddefer i mi ddweyd mai un rheswm o'r methiant ydoedd hyn, na ddarfu i werin y gwahanol genhedloedd gymeryd diddordeb yn y mudiad. Pe caem *public opinion* yn fyw i'r mater hwn, ni fyddem yn hir cyn y byddai y *League* mewn gweithrediad. Tra erys y werin yn ddifater haws yw hi i'r arweinwyr chwareu. A chofier nid gwiw i ni gwyno os daw rhyfel yn y dyfodol a ninnau heb wneud ein rhan i'w hatal. Pan ofynir i rai pobl fu'n hyawdl eu condemniad o'r rhyfel ddiweddaf i wneud rhywbeth dros y *League of Nations*, mae'n syn clywed yr esgusodion, a chanfod y difaterwch. Fe gredir gan rai pobl y gall unrhyw fudiad da fel hwn fynd ymlaen yn ei nerth ei hun. Anghofiant ein bod yn gyd-weithwyr a Duw. Dygir gwrthwynebiadau ymlaen yn erbyn y *League* yn aml iawn. Dywedir mai methiant fu pob ymgais o'r fath yn y gorffennol—yr un yw y natur ddynol trwy'r oesau, ac felly anobeithiol disgwyl heddwch. Ac ymhellach, fe ddywedir wrthym fod hanes y byd yn tystio'n eglur mai methiant fydd yr ymgais presenol, oherwydd yr *Economic System* sydd gennym heddyw. Ond yn atebiad i hyn haws fyddai dangos cyfnewidiadau yn hanes ein gwlad na thybiwyd erioed y byddent bosibl. Bu adeg pan fyddai'r gwahanol deuluoedd yn rhyfela a'u gilydd er penderfynu rhyw gwestiwn, ond erbyn heddyw ceir llysoedd barn yn hytrach na rhyfela, a chan fod hyn wedi cymeryd lle rhwng teuluoedd pam lai na cheir yr un peth rhwng cenhedloedd. Dyma gyfle i ni fel crefyddwyr i wneud ein rhan, i helpu heddwch a cheisio ffurfio *public opinion* i hawlio sefydliad y *League*. Nid yw condemnio rhyfel yn ddigon, ond rhaid ymdrechu dros heddwch; nid yn unig cashau y drwg ond rhaid glynu wrth y da. Nid yw gwladgarwch yn gyfyngedig i wroldeb ar faes

y gâd, ac er i liaws o honom fel crefyddwyr gael ein condemnio am amddiffyn gweithred ein gwlad yn y rhyfel ddiweddaf, eto heddwch yw nod ein bywyd, a charem weld yr un brwdfrydedd nawr dros y *League of Nations* er rhwystro rhyfel a chael heddwch parhaol yn ein byd.

Fe glywir swn ymdrech newydd yn y gwersyll heddyw. Nid swn rhyfel, ond swn dymuniad am heddwch.

"Once to every man and nation
Comes the moment to decide,
In the strife of Truth with Falsehood,
For the good or evil side;
Some great cause, God's new Messiah
Offers each the bloom or blight,
And the choice goes by for ever,
'Twixt that darkness and that light."

Yn olaf, fe glywir swn anogaeth a chymhelliad newydd yn y gwersyll hefyd. Cawn ein hunain heddyw mewn cyfnod sy'n llawn o anhawsterau a threialon. Ar ol y fath frwydr mae'r *re-action* yn enfawr, a gelwir arnom i wneud ein goreu dros ein gwlad, a thuag at wella'r byd. Hawdd gweld lliaws o bethau heddyw nad ydym yn eu deall, a chawn ein hunain yn synu paham hŷn a phaham y llall. Gwir fod y rhwystrau'n fawr, ond cofier fod nerth i'w gael yn ol y dydd, a chymorth yn ol yr achos. Nid byd gwag diamcan yw ein byd. Ceir ynddo rywbeth sy'n anfeidrol fwy na dyfais dyn a methiant cymdeithas. Mae mwy o'n tu nag sydd i'n herbyn. Ac os y safwn heddyw mewn cyfnod na fu ei gyffelyb o ran anhawsterau, cofiwn hefyd na chafodd yr un oes y fath ddatguddiad o wroldeb, o hunanaberth ac o gariad. Pwy gafodd y fath waredigaeth ag a gawsom ni? A dyma ni heddyw yn fyw ar ol yr alanas fwyaf yn hanes y byd, yn ddiogel yn ein gwlad, yn rhydd o'r caethiwed, y perygl wedi ei symud, yr ofn wedi ei ddileu, y gelyn wedi ei orchfygu a moesoldeb ein byd yn sicrach nag erioed.

Mae swn anogaeth newydd yn y gwersyll. Mae yna ddisgwyliad mawr oddiwrthym a chymhelliad newydd ar i ni wneyd ein rhan. Mae Duw y tadau eto'n fyw. Y Duw fu gyda'r hen genedl drwy ei holl anhawsterau, yr hwn a addawodd, "Pan elych trwy y dyfroedd myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd fel na lifant drosot; pan rodiech trwy y tân ni'th losgir, ac ni enyn y fflam arnat." Y Duw a ddatguddiodd ei hun yn gariad, ac sydd yn maddeu ein holl anwireddau, ac yn iachau ein holl lesgedd. Duw ein tadau a'n mamau, yr hwn a'u bendithiodd hwynt, ac a'u dygodd i ben eu taith yn fuddugoliaethus; ac heddyw y maent o'n cwmpas fel cwmwl o dystion i'n calonogi a'n cymhell i wneud ein rhan.

Mae swn beio yn y gwersyll heddyw, ac erys i ni i'w symud; mae swn ymdrech newydd yn y gwersyll heddyw, ac erys i ni i'w chynorthwyo; mae swn anogaeth a chymhelliad newydd yn y gwersyll heddyw, ac erys i ni gyfranogi o hono, ac os yw Duw trosom pwy a all fod i'n herbyn.

"Ond pan y gwelaf draw,
Ar fynydd Seion,
Yn iach heb boen na braw
Fy hen gyfeillion;
Paham yr ofnaf mwy?
Y Duw a'u daliodd hwy
A'm dyga innau drwy
Ei dyfroedd dyfnion."

Y PARCH. JOHN JONES, ABERDAR.

[Parhad o tudalen 104.]

Pan ddaru iddo ymsefydlu yn Aberdar, yr oedd ei ragflaenydd, y Parch. Thomas Evans, eisoes wedi dwyn y Ddadl Uniongred, fel y gelwid hi, i fath o hun dawel a distaw, fel nad oedd ar y pryd fawr o son am dani; ond fe syrthiodd i'w ran ef ddyledswydd llawn mor bwysig, o amddiffyn seiliau crefydd ei hunan yn erbyn Cymdeithas Secularaidd gref oedd yn y dref a'r gymdogaeth. Yr oedd y Beibl yn wrthrych pob math o wawd a gwatwar; a'r capel a'r eglwys, yr oeddynt yn eu golwg hwy yn wrthrychau teilwng o sylw a serch pobl weinion ac anwybodus yn unig. Yr oeddynt hwy yn bobl gall, a'r pethau hyn islaw sylw iddynt. Yr oeddynt wedi cael gafael mewn proffwydi newyddion, o leiaf yr oeddynt wedi cael gafael yn yr enwau. Nid oedd nemor un o honynt fedrai ddarllen a deall y llyfrau yn y gwreiddiol. Digon iddynt hwy, lawer o honynt, eu bod wedi cael gafael ar esgus i ddilyn eu melus-chwant. Yn mhen ychydig flynyddau bu'r Gymdeithas farw.

Daliodd y pregethwr at eu ddyledswydd. Traddododd ddarlithiau i brofi fod crefydd yn un o hanfodion pennaf natur dyn, a'i hegwyddorion yn seiliedig yn natur dragwyddol pethau. Dangosai fel yr amlygir Doethineb y Bod Mawr yn natur a chyfansoddiad dyn. Cefais i lawer o bleser pan yn ifanc wrth glywed un hen wraig yn traethu ei stori ar hyd y llinellau hyn. Ni fedrai yr hen wraig fawr, os dim, Saesneg, ond yr oedd wedi ei donio â chof da, a'r gallu i ddethol a gwerthfawrogi a thrysori yr hyn a glywsai gynt o bwlpud yr Hen Dy Cwrdd, a hynny ar ol rhyw ddeng mlynedd ar hugain o amser.

Meddai ein gwrthrych lyfrgell dda a bu'n ddarllenwr mawr yn ei oes. Fe ddygodd y newid sefyllfa o'r wlad i'r dref ryw deimladau hiraethlawn iddo. Yr oedd yna rywbeth pwysig yn eisiau. Un peth fu'n help mawr i gyflenwi y diffyg oedd "Thomson's Seasons." Hoffai'r llyfr hwnnw yn fawr, a darllenai'r *Seasons* pob tymor yn ei dymor. Dygai hynny ef i feddiant o brofiadau melus bore oes. Synnodd lawer wrth weld mor bell ar ol mewn llawer ystyr oedd ffarmwriaeth yn Aberdar. Nid oedd ond un cart yn yr ardal, ac un diwrnod cafodd lawer o ddifyrwch wrth weld y ffermwr yn ceisio gosod yr iraid arno. Nid oedd ganddo yr un glem sut i fynd obeutu iddo. Cafodd yntau y pleser o roi ychydig oleuni ar y mater. Yr oedd y car llusg heb gwbl ddiflannu eto, ac nid oedd angen iraid ar hwnnw. Peth arall a'i synnodd oedd gweld dau ddyn gyda'r aradr—un yn dal pen y ceffyl a'r llall a'i ddwy law ar ddau corn yr aradr. Enghraifft, ebe fe, o'r hyn olygid wrth yr hen ddiareb, "Un yn dala pin draen a'r llall yn ei grafu."

Hoffion ereill yn mhlith y beirdd oedd Cowper, Young, Pope, Byron, &c., er fod y *pencil marks* ar ymyl aml i ddalen yn awgrymu nad oedd y dduwinyddiaeth ddim bob amser yn foddhaol. Llyfrau eraill a gawsant lawer o'i sylw oedd "Hanes yr Eglwys," gan Mosheim; "Arweiniad i'r Testament Newydd," gan Michaelis; "Hanes yr Ymerodraeth Rufeinig," gan Gibbon; Gweithiau yr Archddiacon Paley, yn enwedig ei "Natural Theology"; ond ei broffwydi mawr mewn duwinyddiaeth, athroniaeth, &c., oedd Priestley a Belsham—y ddau erbyn hyn na ddarllenir ond ychydig arnynt, er mor rhagorol ydynt yn rhyw ystyr. Nid drwg fydd adgofio i'r Dr. Martineau ddweyd y dylai "History of early opinions concern-

ing Jesus Christ," gan Dr. Priestley, "gael lle amlwg ar silff fwyaf dewisol pob llyfrgell dduwinyddol." Cafodd ei Destament Groeg ei sylw manwl, yn enwedig ar ddechreu ei weinidogaeth. Yr oedd ei gopi wedi ei rwngddalennu (*interleaved*), ac nid oedd braidd tudalen nad oedd aml i nodyn arno. Nid oedd yr un copi o weithiau Dr. Channing yn ei feddiant. Ymddengys hynny yn hynod; ond tebyg fod yna beth rhagfarn yn erbyn y Doctor, am iddo wneud sylwadau anghymeradwyol ar Dr. Priestley rai blynyddau'n flaenorol. Fodd bynnag am hynny, pan ddaeth ei fab yn ol o'r Coleg a chopi ganddo, fe ddechreuodd ei ddarllen, a thystia'r *pencil-marks* ar ymylon rhai o'r dail ei anghymeradwyaeth yntau. Cyferfydd a gosodiadau a ymddangosant iddo yn amheus, a cheisia am brofion. Fel llawer eraill o'i flaen cais brofion ar faes lle nas gall cyfleu rheolau Euclid nac egwyddorion Rhesymeg (*Logic*). Mae Euclid ei hun yn cychwyn gyda gosodiad dibrawf.

Pan ddarfu i'r Esgob Horsley, yn nghwrs y ddadl fu rhyngddo a Dr. Priestley, wneud yr awgrym nad oedd y Doctor yn medru deall Plato, fe wnaeth beth a ymddangosai yn rhyfedd iawn, ac eto yr oedd llawer o wir ynddo. Perthynai rhai o osodiadau Plato i ddosbarth o feddyliau nad oedd lle iddynt o fewn cylch arferol athroniaeth Dr. Priestley; felly Emerson hefyd yn ei anerchiad a draddododd i fyfyrwyr y Coleg yn Cambridge, Mass., Gorffenaf 15, 1858. Yr oedd yn yr anerchiad osodiadau nad oedd y gwyddfodolion — gweinidogion enwocaf yr enwad Undodaidd—yn alluog i'w ddeall, a gofynasant am esponiad. Nid oedd gan Emerson yr un esponiad i'w roi, a thebyg ddigon ei fod yn synnu at y gofyniad. Nid oedd efe ar y pryd ond gwr cymharol ifanc, ac o bosibl ei fod yn teimlo peth swildod yn mhresenoldeb doctoriaid mawr yr enwad. O leiaf, ychydig ddywedodd. Daeth y pethau hyn i'm cof wrth feddwl am safle ein harwr yn mherthynas i weithiau Dr. Channing. Nid oedd John Jones wedi treulio fawr amser erioed yn myd y dychymyg, er iddo ysgrifennu stori "Ifan a'i Ffair Haf," pan yn ifanc. Nid wyf yn meddwl iddo ddarllen yr un nofel erioed.

Fe gofia'r darllenydd ond odid am erthygl Jenkin Howell ar "Y Bregeth Undodaidd gyntaf a glywais."* Fe ddyry ddesgrifiad pur gywir o John Jones fel *pregethwr*. Ebe fe, —Fel bechgyn o'm oed (rhwng 9 a 12), mynais fynd mor agos ato ag oedd yn bosibl, gan benderfynu, os gallaswn, lyncu pob gair a ddeuai dros ei enau. Yr oedd o gorffolaeth tywysogaidd, hytrach yn "dew"; o edrychiad llym, ac i raddau yn "chwerw." Nid oedd yn siaradwr rhwydd; ei frawddegau i raddau yn fyrr a swta, ond yn hynod finiog ac i'r pwynt; yn fwy tebyg o lawer i ddagr ddeufin y Groegwr nag i gleddyf hirgam y Twrc. Yn ystod y bregeth, gyrrwyd y dagr hwnnw, droion, i groen "Sion o Geneva!"

Y Bregeth. Yr wyf bron yn sicr na "chododd efe destun" o gwbl; ond ei bwnc oedd "rhoddi rheswm" yn ol cyngor yr Apostol "am y gobaith oedd ynddo." Rhoddodd ddarnodiad cyflawn o ddaliadau yr enwad. Dywedid fod *Glyncothi* wedi dweyd yn rhywle "nad oedd mwy o rinwedd yn ngwaed Iesu Grist nag mewn gwaed ceiliog," ac yr oedd hynny wedi creu cryn lawer o ragfarn yn meddyliau hen dyddynwyr Penderyn yn erbyn yr Undodiaid; ond siaradai Mr. Jones mor barchus am Iesu Grist, fel mai y farn gyffredinol am dano wrth ddyfod o'r bregeth oedd nad oedd gwahaniaeth "*gwerth son am dano*"

---

*Yr Ymofynydd, 1896, tud. 198.

rhyngddo ef a'i Trindodiaid! Cafodd ei sylwadau argraff neillduol o ffafriol, yn enwedig arnom ni, y dosparth ieuengaf o'r gynulleidfa. Tir ardderchog i blannu egwyddorion ynddo yw y meddwl ieuanc o'r wyth i'r pymtheg oed, ac oni ddylid bod yn ofalus o honno?

Yn debyg i hyn mae Sais yn ysgrifennu ar ol ymweliad a'r capel yn 1858* — "Pan aethum i fewn yr oedd y gynulleidfa ar eu traed ac yn yr aliau a ger y tan yn siarad a'u gilydd. Yn y man dyna Mr. Jones, y gweinidog, yn esgyn i'r pwlpud, a'r bobl yn mynd i'w heisteddleoedd. Yr oedd y gwasanaeth i gyd yn Gymraeg. Y testun oedd Matthew vi. 22 - 23. Mae Mr. Jones yn ddyn stowt, braf, jolly-looking. Gellid disgwyl rhywbeth ysmala o'r pen acw. Yr oedd y canu yn rhagori llawer ar yr hyn y gellid ei ddisgwyl—y lleisiau yn felodaidd a'r oll yn ddymunol iawn. Eisteddai'r gynulleidfa tra'n canu, ac yr oedd y gerddoriaeth yn gyfyngedig i gyd i'r llofft. . . . . Ar ol y gwasanaeth gweinyddwyd y cymundeb. Daeth rhai i lawr o'r llofft i gyfranogi o hono. Ar ol torri'r bara ac arllwys y gwin, cyfranogodd y gweinidog "er cof am ein Harglwydd Iesu Grist." Cadwai'r aelodau yn eu seddau, a chludid y bara a'r gwin o amgylch.

Mae wyth neu naw o'i bregethau wedi eu cyhoeddi. Yn 1857, cyhoeddodd gasgliad o emynau, o dan gyfarwyddyd pwyllgor. Nid ei eiddo ef yw'r drefn. Yr oedd teimlad cryf yn bod yn rhai mannau yn erbyn cymysgu unrhyw emynau ag eiddo Iolo. Gweler y gohebiaethau ar y pwnc yn YR YMOFYNYDD. Bu'n ohebydd cyson YR YMOFYNYDD o'i gychwyniad yn 1847. Yr ydys wedi dweyd ei fod yn rhy hoff o ddadleuaeth. O'r braidd y gallwn dderbyn y gosodiad —yn noeth fel y mae. O'r holl ddadleuon y bu'n ymwneud a hwynt, credwn mai mewn hunan-amddiffyniad, neu o leiaf o dan y dybiaeth hynny, yr ysgrifennai fynychaf. Mae'n wir fod camddealldwriaeth mynych wedi codi rhyngddo a'r Golygydd. Yr oedd o bosibl yn rhy barod i gymryd tramgwydd pan nad oedd un achos tramgwydd wedi ei wneud o fwriad. Yn fynych gwallau'r wasg fuasai tu cefn i'r tramgwydd. Ni fu erioed fwy doeth a gofalus golygydd na Jones, Penbont, ond bu llawer brwydr boeth a diangen rhyngddo a'i ohebydd o Aberdar. Cyhoeddodd draethawd pur dda ar "Y Sabbathau," yn 1859.

Mehefin 9, 1836, bu farw John Williams, y gof, gwr medrus iawn yn ei gelfyddyd, un o ffyddloniaid yr Eglwys, a gwr poblogaidd yn yr ardal. Efe oedd blaenor y gân, a dywedir ei fod yn arwain o'r sêt dan y pwlpud. Yr oedd tua dwy fil a hanner yn bresennol yn yr angladd. Cynhaliwyd y gwasanaeth y tu allan, y gweinidog yn traddodi oddiar y "Mownt." Pwnc y bregeth oedd "Edifeirwch Gwely Angeu," yr hon a gyhoeddwyd wedi hynny. Priod Mr. Williams oedd Martha, merch y Parch. Thomas Evans. Bu hi farw yn 1851, yn 63 oed. Bu iddynt amryw blant.

Nadolig 1838 oedd dydd angladd aelod arall o'r Hen Dy Cwrdd—Armit Jones—gwr ifanc, ffyddlon a gweithgar, ac un y teimlai ei weinidog hiraeth ar ei ol. Fel hyn yr ysgrifennodd yn ei ddyddiadur,—"A good Christian and a sincere friend. The memory of the righteous is blessed." Ato ef y cyfeiria yn ei lythyr, yr hwn a dynnodd gryn sylw ar y pryd, dan y penawd, "Cadw a damnio yr un dydd." Yn ol gofyn y Llyfr Gweddi Gyffredin, darllena'r Ficer bob dydd Nadolig yr hyn sy'n myn'd dan yr enw Crèdo Sant Athanasius—credo mewn gair nad oedd dim a fynnai

---

*Gweler "Transactions of the Unitarian Historical Society," Vol. 2, Part 2.

Athanasius a hi, ond credo sy'n damnio pob Undodwr yn y geiriau hyn :—"Yr hon ffydd onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, diameu y collir ef yn dragywydd." Yn yr angladd yn y prydnawn, yn ol gofyn yr un llyfr, mae yr un Ficer yn darllen, "Yn gymaint a rhyngu bodd i'r Goruchaf Dduw o'i fawr drugaredd gymeryd ato ei hun enaid ein hanwyl frawd ymadawedig, yr ym ni yn rhoddi ei gorff ef i'r ddaear, &c., . . . mewn gwir ddiogel obaith o'r adgyfodiad i fywyd tragwyddol, &c."—"Christian Reformer" 1839, p. 245.

Yn 1840, traddododd yn Blaengwrach bregeth angladdol ei frawdyng-nghyfraith, y Parch. Thomas Rees, yr hwn oedd yn weinidog yn 1837—40, ac a fu farw Hydref 5, 1840, yn 27 oed. Testun y bregeth oedd, "Cofia yn awr, &c." (Pregethwr xii. 1). Cyhoeddwyd hi dan yr enw "Galwad yr Ieuenctyd i droi at Dduw."

CWRDD COFFA Y DIWEDDAR MR. LEWIS HOPKIN, CATHELYD.

"Gwelwyd y blodau ar y ddaear, daeth yr amser i'r adar ganu, clywyd llais y ddurtur yn ein gwlad" O dan amgylchiadau tebyg i'r uchod aeth pedwar o ffryndiau o Clydach ar fore teg o Fai, 1920, a'r Sul ola' yn y mis oedd y Saboth hwnnw. Yr oedd glesni a phrydferthwch yn amlwg ymhob man. Blodau Mai yn ariannu'r perthi, a llygaid y dydd fel perlau aur mewn gwisg o arian yn harddu mynydd, bryn a dôl. Dringwyd y rhiwiau. Pinacl ein bwriad oedd Mynydd a Chapel Gellionen. Hawdd y gallem ganu gyda'r bardd :—

"Dringo'r mynydd, hapus daith,
Er mai caled yw y gwaith,
Wedi cyrraedd idd ei ben,
Cawn ein hanadl yn y neu."

Diolchwn i Dad pob daioni am y fraint o gael un o hen fynyddoedd Gwalia dlôs yn gyfrwng i ddringo i fyny i fynydd Duw :

"Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir."

Wedi awr o gerdded yn hamddenol, cyrhaeddwyd pen y mynydd. Eithum i fynwent y Capel henafol—man cyssegredig gan gannoedd. Gwelsom feini coffa i lawer a fuont yn annwyl gennym gynt, ac er fod eu cyrff yn pydru ym mhriddellau'r mynydd, priodol y gallwn ddweyd :—

"Eu henwau'n perarogli sydd,
A'u hun mor felys yw."

Aeth y brawd hynaws a hoff o Disgwylfa â ni i fangre nodedig yn hanes y tadau, a hefyd yn hanes yr achos ar y mynydd, y blynyddoedd a fu,—man lle y byddyd arferol â bedyddio, ac i ni, oedd yn dyfod i fyny o ymchwydd yr Iorddonen (chwedl y Parch. Phillip Jones, gweinidog enwog gydag enwad parchus y Methodistiaid), yr oedd yn fan ddiddorol iawn. Wedi hyn, aethum i fewn i'r capel, a chaed cwrdd a gwasanaeth hyfryd. Cwrdd coffa oedd hwn i'n cyfaill mynwesol, y diweddar Mr. Lewis Hopkin, Cathelyd. Cystudd cymharol fyr gafodd y bardd tlws, wedi iddo

adael Cathelyd, cafodd lety clyd a chartre' cysurus yn hwyrddydd ei oes o dan gronglwyd y teulu caredig, Mr. Daniel John, Y.H., a Mrs. John, yn Ffarm y Cwm a Glyncoch. Taled yr Arglwydd iddynt am eu cymwynasgarwch i un o bererinion Seion. Mr. Rees, gweinidog parchus y lle, oedd yn pregethu, ar y testun, "Os bydd gwr marw, a fydd efe fyw drachefn?" Yn ystod ei bregeth, dywedodd mai tywyll iawn ydoedd o barthed i'r bywyd gwell, y bywyd anfarwol y tu hwnt i'r llen o dan yr Hen Destament, ac mai y bendigedig Iesu, drwy Ei efengyl ogoneddus, ddaeth a bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Pregeth â'i llond o gysur a diddanwch i blant a phobl Dduw oedd hon. Dywedodd Mr. Rees lawer am rinweddau da y brawd ymadawedig, fel dyn ac egwyddorion crefydd Iesu Grist yn llywodraethu ei fywyd, fel bardd a llenor, fel gwr fu yn ddefnyddiol iawn mewn cymdeithas. Gwelid ef y blynyddoedd gynt yn arwain ac yn beirniadu gyda graen mewn Eisteddfodau, a choron ei fywyd dry yn elw bythol iddo. Yr oedd yn ofni Duw ac yn parchu dyn; a gall eraill yn hŷn na ni oddiar ein hadnabyddiaeth ohono am flynyddoedd lawer, dystio nad oedd wedi dweyd gormod. Efe, sef Lewis Hopkin, oedd y dyn cyntaf braidd i mi adnabod. Mae'n wir mai adwaen o ran oeddwn y pryd hwnnw; dim ond y wyneb, megis, ond deuthum wedi hyn i'w adwaen yn drylwyrach; ac y mae'n bleser gennyf ddwyn tystiolaeth iddo fynd ar gynnydd yn ein syniad a'n hedmygedd ohono hyd derfyn ei yrfa ddaearol; ac yr ydym yn edrych ymlaen at y dydd y cawn eto gwrdd mewn gwlad lle "Ni wywa byth eu blodau braf." Ni chlywsom neb erioed yn dweyd dim yn fychanus am dano. Yr oedd iddo air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y cyfaill, Mr. Lewis Morgan, Clydach, a chafodd ysgrifennydd y llinellau hyn y fraint o ddweyd gair, a gosod tusw bach o flodau ar fedd y gwr annwyl.

DAVID RODERICK.

PRIODASAU.

Yn Eglwys Sant Ioan, Clydach, dydd Mercher, Mehefin 16, o flaen y Cofrestrydd a'r Ficer, priodwyd Mr. William J. Bowen, a Miss Mary Griffiths, y ddau o Drebanos

Yn y Graig, Trebanos, dydd Mercher, Gorffennaf 7, o flaen y Cofrestrydd a'r Parch. D. G. Rees, priodwyd Mr. Gomer Rees, Alltwen, a Miss Hannah R. Davies, Disgwylfa, Trebanos.

MARWGOFION.

MEHEFIN 19, wedi cystudd maith a chaled, yn 84 mlwydd oed, bu farw Lettice Rees, Tanrhiw, Llanwenog, ond yn ddiweddar o Benlan-

ganol yn yr un plwyf. Claddwyd yr Iau canlynol ym mynwent Capelybryn. Pregethwyd ar yr achlysur, yn ol ei dymuniad, gan ei hen weinidog, y Parch. John Davies, a chynorthwywyd gan y Parchn. Lewis Williams a David Evans, Cribyn. Gadawodd ddau fab ac amryw wyrion i alaru'n ddwys ar ei hol. Yr oedd yr angladd yn lliosog iawn. Yr oedd amryw wedi dyfod yr holl ffordd o Gellionen a'r Graig o gydymdeimlad a'i hanwyl fab, eu gweinidog, y Parch. D. G. Rees. Bu'r ymadawedig yn wraig ffyddlon, yn fam dyner a dàrbodus, yn gymydoges gymwynasgar, yn aelod teilwng o Eglwys Iesu Grist yng Nghapelybryn. "Gwerthfawr yng ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei Saint Ef."

MEHEFIN 29, yn 66 mlwydd oed, Mr. John Hughes, Glanthams, Llundainfach, Dyffryn Aeron. Yr oedd yr ymadawedig yn fab i John a Margaret Hughes, Tyngwndwn; yr ieuengaf o 13 o blant, pump o ba rai sydd yn fyw heddyw. Un o honynt ydyw Mr. David Hughes, Maesffynonoer. Fel ei dad, saer ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ystyrid ef yn gampwr wrth ei waith drwy yr holl ardal. Y dydd Gwener dilynol claddwyd yr hyn oedd farwol o hono ym mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Conwil Evans, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. David Evans, Cribyn; T. C. Edmunds, rheithor Trefilan, a W. Phillips, Tyngwndwn. Gadawodd mewn galar o'i golli weddw, tair merch, pedair chwaer, brawd, a pherthynasau eraill.

GORFFENNAF 2, yn 67 oed, bu farw Mary Lewis, Caeglas, plwyf Llanbedr. Er mai byr fu ei chystudd olaf, eto nid oedd wedi mwynhau iechyd da er's blynyddau lawer; ond hyd o fewn i ychydig wythnosau i'w marwolaeth, parhaodd i fyned oddiamgylch a chyflawni ei goruchwylion teuluol. Yn ei chystudd olaf cafodd bob gofal a thynerwch oddiar law ei phriod a'i merch yng nghyfraith. Heblaw y priod, gadawodd mewn galar ar ei hol un mab, un brawd, a thair chwaer. Benyw dawel, cywir ei rhodiad, dymunol ei hysbryd ydoedd, a hoffid hi yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Bu yn briod ac yn fam ofalus a thyner, a gwelir ei heisiau yn fawr ar yr aelwyd. Yr oedd yn aelod o gynnulleidfa Capelygroes—ymaelododd yno pan yn gymharol ieuanc; a thra y caniatai ei hiechyd bu yn ffyddlon iawn; ond yr oedd wedi ei hanalluogi er's blynyddau gan afiechyd i fynychu'r addoliad. Dydd Mercher canlynol hebryngwyd ei gweddillion i gladdfa Capelygroes gan dyrfa anarferol o liosog. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle (y bregeth yn sylfaenedig ar Ioan 14: 2, rhan gyntaf); a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams.

MANION AC HANESION.

CAPELYBRYN.—Sul 11eg o Orffennaf cynhaliwyd Cyfarfod Undebol i ddadorchuddio Maen Coffa a osodwyd i fyny yn y mur yn y capel hwn i'r diweddar Evan Tom Jones, mab Mr. a Mrs. Jones, Llettyrwennol, a fu farw yn garcharor rhyfel yn yr Almaen, Hydref 4, 1918, yn 19 mlwydd oed. Yr oedd y cynulliad yn un mor lluosog fel y gorfu i lawer

fod o'r tuallan. Llywyddwyd gan y Parch. L. Williams. Cyflawnwyd y gorchwyl o ddadorchuddio gan y Parch. J. Davies, Tancoed, yr hwn a lefarodd eiriau cymhwys iawn i'r amgylchiad, ac a ddygodd dystiolaeth uchel i gymeriad prydferth yr ymadawedig. Cafwyd anerchiadau gan Mr. Evan Evans, Coedlannau-fach, a Mr. Thomas Davies, Y Felin. Wedi hyny cafwyd dwy bregeth, y naill gan y Parch. E. Glyn Edwards (B.), Seion, oddiar y geiriau, "Goddef gystudd megis milwr da i Iesu Grist" (2 Timotheus 2 : 3); a'r llall gan y Parch. L. Williams, oddiar y geiriau, "Y garreg a lefara o'r mur," (Habacuc 2 : 11).

ADRAN YR YSGOL SUL. 1. Yr Arholiad.—Cynhaliwyd yr Arholiadau yn ystod Mehefin, pryd y bu 137 dan arholiad, ac y pasiodd 136, fel y canlyn: Alltyplaca 17; Brondeifi 13; Bwlchyfadfa 8; Caeronen 1; Capelybryn 22; Capelycwm 6; Capelygroes 5; Ciliau 10; Cribyn 15; Graig 6; Khydygwin 5; Trebanos 28. Nifer yr ymgeiswyr yn y Safonau—Safon I, 16; Safon II, 39; Safon III, 81. 2. Enillwyr y Bathodau.—Safon I, Griffith Lewis Jones (Capelybryn); Safon II, Jennie Davies (Brondeifi); Safon III, Sarah Hughes (Cribyn), Evan Davy Jones (Brondeifi); Rachel Winnie Hughes (Capelybryn), Margaret Lloyd (Capelycwm). Trebanos: Safon I, David Islwyn Morgan; Safon II, Mary Lloyd; Safon III, Maldwyn Davies. 3. Adroddiad y Trysorydd (Mr. Cledlyn Davies).—Mewn llaw, Rhag. 31, 1919, £13 18s. Casgliadau—Brondeifi 10s.; Rhydygwin 17s. 9c.; Capelybryn 10s.; Aberdar (Hen Dy Cwrdd) 10s.; Capelygroes 18s.; Alltyplaca 7s. 6c.; Cribyn 14s.; Trebanos 15s.; eto (1919) 7s. 6c.; y cyfanswm—£19 14s. 9c. Treuliau—i Mri. J. D. Lewis a'i Feibion £2 16s. Mewn llaw Mehefin 23, 1920—£16 18s. 9c. 4. Y Casgliadau—Y mae yn agos i hanner yr ysgolion heb ddanfon eu casgliadau i fewn. Gan y bydd y treuliau gryn dipyn yn drymach y flwyddyn nesaf nag oeddynt eleni, erfynir arnynt i wneud y casgliad cyn gynted ag y gellir. 5. Bydd Gwersi am y flwyddyn nesaf yn barod yn gynnar yn Awst. Fe fydd y gost o'u hargraffu tua 3½c. yr un; ond ystyriaf mai gwell fydd eu gwerthu am 2c. yr un yn hytrach na chodi pris llawn. Danfoner yr archebion i'r ysgrifennydd—Parch. D. EVANS, Llanwnen, Llanybyther.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Y Llungwyn, ar fynydd Gellionen, rhoddodd yr Eglwys wledd o dê a bara brith i blant yr Ysgol Sul. Daeth llu mawr i'r lan, o bob oed a maintioli. Wedi y tê, awd i rannu melusion,—a'r smarta'i ffia hi. Yna cawd hwyl a blas ar chwareuon o bob math. Da oedd i ni fod yno. O, na byddai'n Llungwyn o hyd. ——Nos Sadwrn, Mehefin 5ed, yn y Neuadd Gyhoeddus, Pontardawe, i dyrfa gymedrol, aeth Gobeithlu yr Eglwys hon drwy y drydydd berfformiad o'r chwareugerdd, "The Magic Cup," a thystiwn i bob cymeriad, a phob un o'r plant, wneud eu dyledswydd yn ardderchog. Yr oedd y cyfarfod hwn ar ffurf o fudd-gyngherdd i'r cyfaill a'r arweinydd, Mr. H. H. Morgan, Geinor, Trebanos, am ei lafur mawr a'i ddyfalbarhad diflino gyda'r Gobeithlu a phlant yr Ysgol Sul, &c., am dymhor maith. Cyfeiliwyd gan Mr. Llewelyn Davies, Clydach, a Master Haydn Morgan, Trebanos. A bu Mr. Marles Williams yn gyfrifol am y Gerddorfa Linynnol,—a rhaid dweyd i ofal mawr gael ei gymeryd o chwareuad y gerddoriaeth drwy y darn.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

BOOKS ON LIBERAL RELIGION.

— Just Published. —

A Unitarian's Thought of God. By Christopher J. Street, M.A., LL.B. Crown 8vo., 94 pp., 2s. 6d. net, paper 1s. 6d. net, postage 3d. "This little book is the result of a firm conviction that no solution is to be found for the deepest problems of life except in the thought of God and the realisation of his presence and operation in the life of man."—*Preface.*

Realities and Reconstruction. By R. Travers Herford. Crown 8vo, 152 pp., 3s. 6d. net, paper 2s. 6d. net, postage 3d. "It is salutary to read these quiet, sensible chapters which hold up a high ideal, but at the same time remind us of some obstinate facts."—*Inquirer.*

The Parables of Jesus applied to Modern Life. By J. Cyril Flower. With a Foreword by Dr. L. P. Jacks. Crown 8vo., 116 pp., paper 2s. net. Mr. Flower writes as one who believes that "the time is at hand when we shall cease to chatter about the person of Christ, and when the world will catch a glimpse of the real man of Galilee, and give ear to a teaching which, like the seed growing in secret, shall germinate in the hearts of men and revolutionize our social life, our industrial order and our religion."

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £34,428,948. Paid up Capital .. £7,172,697 10s.

Reserve Fund .. £7,172,697 10s.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1918.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz:—			
£2 10s. 0d. per Share on 2,869,079 Shares of £12 each ..	7,172,697	10	0
,, Reserve Fund	7,172,697	10	0
,, Dividend payable on 1st February, 1919	451,879	18	10
,, Balance of Profit and Loss Account as below	675,097	14	7
	15,472,372	13	5
,, Current, Deposit & other Accounts	334,898,435	12	6
,, Acceptances on account of Customers	13,145,849	2	11
	£363,516,657	8	10

				£	s.	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £8,000,000) and Cash at Bank of England				63,756,371	2	5
,, Cheques on other Banks *in transitu*				2,001,486	12	7
,, Money at Call and at Short Notice				65,809,169	12	4
,, Investments:—						
War Loans, at cost (of which £432,979 15s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities ..				57,463,594	19	3
Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures				468,383	12	0
British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks ..				1,112,725	19	8
Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds				1,410,465	18	10
Sundry Investment				1,145,481	1	6
,, Bills of Exchange				39,249,296	3	2
				232,416,975	1	9
,, Advances on Current and other Accounts ..				99,213,614	15	6
,, Advances on War Loans				14,218,201	2	1
,, Liabilities of Customers for Acceptances ..				13,145,849	2	11
,, Bank Premises, at Head Office and Branches ..				3,762,127	6	7
,, Belfast Bank Shares:—						
50,000 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid						
150,000 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid						
Cost	1,237,500	0	0			
Less part Premium on Shares issued ..	477,810	0	0			
				759,690	0	0
				£363,516,657	8	10